Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin
# Prifysgol Bangor
# Stryd y Deon
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 1UT

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2021

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin

Ad-drefnwyd y sector Cymraeg i Oedolion yn 2016 gan sefydlu Canolfan Genedlaethol a rhwydwaith o ddarparwyr ar draws Cymru.  Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin (DCGO) yn ystod yr ad-drefnu hwn ac fe'i lleolir o fewn yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau ym Mhrifysgol Bangor.

DCGO yw'r darparwr mwyaf yng Nghymru gydag, ar gyfartaledd, dros 2,000 o ddysgwyr unigol yn flynyddol ar draws siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.  Mae'n derbyn derbyn grant craidd o £1,530,539 yn ystod 2021-2022 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Ar ddechrau blwyddyn 2021-2022 cyflogwyd 28 o staff craidd ynghyd â 47 o staff cyfnod penodol.  Cyfarwyddwr DCGO sydd yn gyfrifol am arwain y darparwr yn strategol ac yn weithredol, ac mae ganddo dîm rheoli o 4 rheolwr arall i'w gefnogi sy'n gyfrifol am Ddysgu ac Addysgu, Rheoli Ansawdd a Systemau, Hyfforddiant, a Gweinyddiaeth a Lles, ynghyd â thîm o 5 Tiwtor-Drefnydd ardal sy'n rheolwyr ar dimau ardal o diwtoriaid.

Cynigir ystod o gyrsiau prif-ffrwd o lefel Mynediad i Hyfedredd, yn gymunedol ac yn y gweithle, yn ogystal â rhaglen o weithgareddau cefnogi dysgwyr ar draws y tair sir (Gwynedd, Môn a Chonwy) sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol a chefnogol.

## Crynodeb

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yn gymuned glòs, ofalgar gyda staff sy’n llwyr ymroddedig i gefnogi pob dysgwr.  Mae tiwtoriaid yn sicrhau awyrgylch gynhaliol, bositif ac ysgogol lle mae bron pawb yn teimlo’n ddiogel ac yn cyfrannu i’r gwersi heb boeni am wneud camgymeriadau.

Mae llawer o ddysgwyr yn datgan bod parhau i ddysgu’r iaith o bell wedi bod yn fuddiol iawn i’w hiechyd meddwl a lles yn ystod cyfnod y pandemig.  Mae arweinwyr a thiwtoriaid wedi cydweithio’n ddiflino i gynllunio a gweithredu’n fwriadus wrth addasu’r ddarpariaeth i fod ar-lein mewn cyfnod byr.  Maent yn darparu profiadau cyfoethog o fewn dosbarthiadau a chymunedau rhithiol sy’n cefnogi dysgwyr yn fuddiol wrth iddynt ddatblygu eu hyder i siarad Cymraeg.  Mae’r darparwr yn cynnig ystod eang o weithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy’n sicrhau llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau ar bob lefel yn ogystal â chyrsiau i weithleoedd.

Mae bron pob tiwtor yn meithrin perthnasoedd gwaith hynod gadarnhaol gyda’r dysgwyr ac maent yn cynllunio a threfnu gweithgareddau dysgu’n greadigol a dyfeisgar sy’n ennyn a chynnal diddordeb dysgwyr yn effeithiol. Un o nodweddion arbennig yr addysgu yw'r modd mae tiwtoriaid yn addasu’r gweithgareddau dysgu i gynnwys iaith gynhenid a thafodiaith gyfoethog y cymunedau mae’r dysgwyr yn aelodau ohonynt.  Mae hyn yn cael effaith buddiol ar hyder dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg gyda siaradwyr iaith gyntaf. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r gwersi.  Maent yn awyddus iawn i gymathu â’r gymuned Gymraeg yn llwyddiannus, boed wrth siopa, gyda chymdogion neu yn y gweithle.  Mae’r dysgwyr eu hunain wedi bod yn greiddiol i barhad y digwyddiadau cefnogi dysgwyr yn ystod y pandemig trwy arwain sesiynau sgwrsio megis ‘Peint a sgwrs’, ac yn trefnu côr i ddysgwyr.

Mae gan y darparwr drefniadau cadarn ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion dysgu ychwanegol (ADY) dysgwyr.  Mae’r darparwr wedi clustnodi aelod penodol o staff i ofalu am hyn, gan gysylltu â nhw i gynnig pob cymorth ar gyfer hwyluso eu profiad fel dysgwyr.

Mae’r darparwr yn chwarae rôl flaenllaw ym maes hyfforddiant cenedlaethol. Un o ragoriaethau’r darparwr yw cydweithio ag adrannau eraill Prifysgol Bangor wrth gynnal ymchwil am wahanol agweddau ar addysgu a dysgu, er enghraifft wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu a gwella ynganu.  Enghraifft nodedig arall yw trwy gydweithrediad â’r adran seicoleg, cynhyrchwyd canllawiau y gellir eu defnyddio gyda siaradwyr anfoddog y Gymraeg, er mwyn eu hannog i fagu hyder a dod yn siaradwyr mwy gweithredol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

R1 Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn datblygu eu medrau llafaredd hyd eithaf eu gallu

R2 Parhau i rannu arferion effeithiol yn rhanbarthol a chenedlaethol o ran dysgu a chaffael y Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith mewn perthynas â/ag **ymchwil sydd yn sail i strategaethau dysgu ac addysgu** yn ogystal ag astudiaeth achos am y **dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi dysgwyr i gymathu â'r gymuned Gymraeg** i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Mae bron pob un o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, sydd wedi dechrau neu wedi parhau gyda'u cyrsiau, yn cyfranogi'n frwdfrydig yn y ddarpariaeth a gynigir iddynt sy'n cynnwys sesiynau ar-lein yn bennaf ers dechrau'r pandemig.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn rhyngweithio'n dda gydag ymwelwyr Cymraeg eu hiaith ac yn medru esbonio sut mae'r cyrsiau'n helpu iddynt gyflawni eu nodau personol fel dysgwyr. Mae'r awydd amlwg sydd gan y dysgwyr i gymathu â chymunedau a rhwydweithiau Cymraeg yn nodwedd gref. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'r iaith y tu allan i ddosbarthiadau, nid yn unig trwy ddefnyddio adnoddau neu weithgareddau i ddysgwyr ond hefyd wrth ryngweithio â siaradwyr Cymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd yn eu hardaloedd. Mae'r dysgwyr hyn yn dangos penderfyniad i ddod yn rhan o gymunedau Cymraeg yr ardal. Maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n manteisio'n fuddiol ar gyfleoedd i wella a defnyddio eu medrau ieithyddol.

Yn ystod y gwersi, mae bron pob un dysgwr yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn addas i sbardunau llafar. Mae'r rhan fwyaf yn adalw dysgu blaenorol i gof yn dda gan gaffael gwybodaeth newydd a'i chymhwyso i sefyllfaoedd newydd. Yn unol â'u lefel ieithyddol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad Cymraeg â'u tiwtoriaid a'u cyd-ddysgwyr yn ddigymell, heb droi at y Saesneg.

Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth ddysgu a defnyddio patrymau elfennol yr iaith gydag ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd addas ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, o lefel canolradd ymlaen, yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau llafaredd. Erbyn cyrraedd lefelau uwch, mae'r dysgwyr hyn yn fwyfwy hyderus a rhugl eu Cymraeg ac yn yr achosion gorau maent yn medru cynnal trafodaethau aeddfed a soffistigedig ar ystod eang o themâu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn werthfawr. Maent, yn unol â'u lefel, yn darllen ar goedd yn gynyddol hyderus a chywir. Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn gwneud cynnydd addas wrth ddarllen brawddegau byrion a deialogau syml. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mwy profiadol yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddarllen a thrafod ystod eang o destunau ffeithiol a dychmygol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr ar lefelau uwch a hyfedredd yn darllen testunau llenyddol, fel y nofel Cariad Pur a'r gerdd Eryri gan Ifor ap Glyn. Maent yn darllen yn rhwydd gan ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys, y prif gymeriadau a'r awyrgylch. Maent hefyd yn darllen testunau llenyddol ar goedd yn ystyrlon gan oslefu'n gywir ar y cyfan wrth ddehongli ystyr a naws.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau gwahanol yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol. Mae dysgwyr lefel mynediad yn datblygu o dasgau syml fel adnabod llythrennau'r wyddor Gymraeg a llenwi bylchau i weithgareddau sy'n gofyn iddynt greu ymatebion a dyddiaduron wedi eu personoli. Yn ogystal, mae'r dysgwyr hyn yn medru adrefnu brawddegau i greu deialogau ystyrlon yn briodol. Mae dysgwyr lefel sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach gan ddefnyddio atebion

cadarnhaol a negyddol amrywiol yn briodol. Maent yn defnyddio brawddegau pwysleisiol yn addas a defnyddio cysyllteiriau'n gywir i greu brawddegau cymharol. Llwydda llawer o ddysgwyr ar lefel canolradd i ysgrifennu at ddibenion ehangach yn effeithiol megis darnau disgrifiadol a chyflwyniadau ar gyfer sefyllfaoedd cymdeithasol a phroffesiynol gwahanol. Maent yn dangos meistrolaeth gynyddol ar batrymau ac amseroedd y ferf gan gynnwys yr amodol a'r amherffaith i amrywio cystrawennau'n fedrus.

Mae llawer o ddysgwyr lefel uwch a hyfedredd yn ysgrifennu yn ieithyddol aeddfed ac yn gynyddol gywir i fynegi barn a chreu darnau estynedig effeithiol mewn cyweiriau gwahanol gan ddefnyddio tafodiaith leol mewn ffordd naturiol a rhwydd. Maent yn creu darnau estynedig a meddylgar, gan gynnwys ffuglen a phapurau bro y dyfodol sy'n trafod materion lleol a phynciau llosg fel yr amgylchedd ac erydu arfordirol mewn ffordd ffraeth a chreadigol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr ar y lefelau hyn yn cyfuno medrau'n fuddiol iawn trwy fynegi barn yn gelfydd ar ôl gwrando ar ddarnau o gerddoriaeth neu ddarllen nofelau cyfoes fel Llyfr Glas Nebo.

Ar gyfartaledd, mae dros 2,000 o ddysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau'r darparwr yn flynyddol. Gostyngodd niferoedd yn ystod 2020-21 yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig. Mae'r darparwr wedi gweithredu i unioni'r sefyllfa hon a dengys data'r darparwr bod niferoedd wedi codi ddechrau'r flwyddyn academaidd 2021-22 a bod cynnydd yn ymrestriadau ar gyfer dechreuwyr newydd ar lefel mynediad. Dros gyfnod o dair blynedd mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau ac mae mwyafrif yn symud ymlaen i gyrsiau dilynol. Mae'r rhan fwyaf o dysgwyr yn mynychu eu cyrsiau'n gyson, gyda phresenoldeb yn cynyddu ers cyflwyno dysgu o bell yn ystod 2019-20.

Ni chynhaliwyd cyfres lawn o arholiadau Cymraeg i Oedolion gan CBAC yn ystod 2019-20 a 2020-21. Er hynny, mae nifer y dysgwyr cymwys sy'n dewis sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf gyda thua hanner ohonynt yn gwneud hynny. Mae bron pob un yn llwyddo i ennill cymhwyster gyda llawer ohonynt yn ennill rhagoriaeth.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yn rhoi blaenoriaeth i greu ymdeimlad o gymuned ddysgu gynhwysol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau ehangder y profiad y cânt o ddysgu'r Gymraeg ac mae eu brwdfrydedd a'u chwilfrydedd yn amlwg yn ystod y gwersi. Mae'r ffaith bod y ddarpariaeth wedi parhau trwy gydol y pandemig yn arwain at lawer o ddysgwyr yn datgan yn nerthol bod dysgu'r iaith o bell, wedi bod yn fuddiol iawn i'w hiechyd meddwl a lles yn ystod y cyfnod hwn.

Mae bron pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn ffyddiog bod y ddarpariaeth yn gofalu am eu lles. Mae dysgwyr ar bob lefel yn manteisio'n fuddiol ar y sesiynau dal i fyny a gynigir gan diwtoriaid i ddysgwyr sydd wedi methu dosbarth am resymau gwahanol. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar gynnydd y dysgwyr.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y clybiau darllen i ddatblygu medrau ieithyddol y dysgwyr yn ystod cyfnod y pandemig. Mae'r clybiau hyn yn cael effaith cadarnhaol ar les a mwynhad dysgwyr. Mae bron pawb sy'n aelod o glwb darllen yn nodi bod

mynychu yn codi hyder a gwella cymhelliant. Ar ben hyn, mae'r profiad yn ehangu eu geirfa a chryfhau eu sgiliau siarad, darllen ac ynganu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mynegi'n gadarn bod y gefnogaeth y maent yn ei derbyn naill ai yn y dosbarth, wrth weithio'n annibynnol, neu wrth fynychu gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth yn effeithiol iawn. Maent yn teimlo'n gryf bod y darparwr yn gwrando ar eu llais, trwy wahanol brosesau llais y dysgwr ac yn ymateb i'w barn yn briodol. Er enghraifft, mynegodd rhai dechreuwyr eu bod yn teimlo'n anghyfforddus yn gweithio fel pâr mewn "ystafelloedd llai" ar-lein gyda phobl newydd. O ganlyniad, gosodwyd dysgwyr mewn grwpiau mwy i weithio ar y dechrau. Mae dysgwyr, yn arbennig dysgwyr sydd wedi nodi anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwerthfawrogi medru mynychu dosbarth sydd wedi ei deilwra yn unol â'u hanghenion.

Mae bron pob dysgwr yn dangos parch a chefnogaeth tuag at y dysgwyr eraill ac o ganlyniad maent yn llwyddo i gydweithio'n bwrpasol gyda'u cyd-ddysgwyr yn y gwersi. Mae'r elfen o gymuned yn y dosbarth yn amlygu ei hun drwyddi draw, gyda'r dysgwyr yn hapus i holi ac ateb cwestiynau yn unol â'r lefel heb fod ofn gwneud camgymeriadau. Mae'r rhan fwyaf yn rhyngweithio â'i gilydd yn naturiol yn y Gymraeg. Maent yn cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd ac yn dysgu'n annibynnol yn gyson y tu allan i'r gwersi. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel iawn ac yn gosod targedau i'w hunain i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gyda theulu neu yn y gymuned. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi cael trafod eu targedau personol gyda'r tiwtor, ac mae hyn yn ei dro yn rhoi cymorth i'r dysgwr wireddu'r targedau uchelgeisiol hynny. Maent yn canolbwyntio yn dda yn y gwersi ac yn dyfalbarhau gyda'r sgwrs yn Gymraeg er yr heriau sy'n codi o dro i dro wrth ddysgu geirfa a phatrymau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r gwersi. Maent yn awyddus iawn i gymathu â'r gymuned Gymraeg yn llwyddiannus, boed wrth siopa, gyda chymdogion neu yn y gweithle. Er rhwystrau'r pandemig, mae dysgwyr yn awyddus i ymarfer y Gymraeg trwy fynychu amrywiol ddigwyddiadau cefnogi dysgwyr, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Maent yn mwynhau ac elwa ar fynychu amrywiol weithgareddau er enghraifft eisteddfod, ffair Nadolig, panad a sgwrs a chlybiau dysgwyr. Mae ychydig o ddysgwyr yn gweithio'n ddiflino i ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith, ac yn gymunedol. Er enghraifft, maent wedi bod yn greiddiol i barhad y digwyddiadau cefnogi dysgwyr yn ystod y pandemig trwy arwain sesiynau sgwrsio megis 'Peint a sgwrs', ac yn trefnu côr i ddysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu cyrsiau atodol, yn defnyddio gweithgareddau ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gwefannau cymdeithasol, ac apiau amrywiol i gefnogi eu dysgu'n llwyddiannus.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae arweinwyr a thiwtoriaid wedi cydweithio'n ddiflino i gynllunio a gweithredu'n fwriadus wrth addasu'r ddarpariaeth i fod ar-lein mewn cyfnod byr. Maent yn darparu profiadau cyfoethog o fewn dosbarthiadau a chymunedau rhithiol sy'n cefnogi dysgwyr yn fuddiol wrth iddynt ddatblygu eu hyder i siarad Cymraeg. Mae arweinwyr yn cefnogi tiwtoriaid yn hynod lwyddiannus wrth ddarparu arlwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n eu harfogi i gyflwyno gweithgareddau dysgu digidol. Mae tiwtoriaid yn rhannu arferion da yn effeithiol fel aelodau o dîm ac yn cynnal trafodaethau am yr

addysgu a dysgu, a rhannu adnoddau digidol newydd trwy wahanol gyfryngau fel y platfform digidol a'r fforymau ardal. Caiff hyn ei werthfawrogi gan diwtoriaid newydd wrth iddynt dderbyn hyfforddiant cynhwysfawr fel rhan o'r broses anwytho a chan diwtoriaid profiadol. O ganlyniad i gydweithio a rhwydweithio brwdfrydig tiwtoriaid, maent yn cefnogi dysgwyr yn gyson a chynhaliol ar draws y ddarpariaeth.

Mae bron pob tiwtor yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol iawn gyda'r dysgwyr ac maent yn cynllunio a threfnu gweithgareddau dysgu'n greadigol a dyfeisgar sy'n ennyn a chynnal diddordeb dysgwyr yn effeithiol. Mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac maent yn eu cymell i ymroi'n llawn i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae tiwtoriaid yn defnyddio rhaglenni yn fedrus wrth greu gemau a phosau digidol sy'n cymell dysgwyr i wrando a siarad Cymraeg mewn ystod o gyd-destunau diddorol, er enghraifft wrth iddynt drafod 'sut mae byw yn fwy gwyrdd'. Drwy gwestiynu treiddgar a chefnogaeth sensitif tiwtoriaid, mae dysgwyr yn arddel y Gymraeg yn llwyddiannus wrth iddynt sgwrsio'n fwyfwy digymell.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn amrywio technegau dysgu yn fedrus wrth addasu'r gweithgareddau dysgu, er enghraifft wrth gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol newydd mewn dulliau gwahanol. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar gynnydd dysgwyr wrth iddynt ryngweithio'n ddiwyd mewn gweithgareddau amrywiol, er enghraifft wrth i ddysgwyr mewn rhannau gwahanol o'r byd drafod yr haul yn machlud y tu allan i'w cartrefi nhw. Caiff hyn ei drefnu'n effeithiol wrth gyflwyno gweithgareddau i ddysgwyr fel dosbarth cyfan cyn eu rhannu i barau a grwpiau llai trwy gyfrwng platfform digidol. Mae tiwtoriaid yn sicrhau cyflymder sionc i'r dysgu sy'n annog dysgwyr i ddatblygu eu medrau llafar yn gyson, sydd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar eu medrau darllen ac ysgrifennu.

Un o ragoriaethau'r darparwr yw cydweithio ag adrannau eraill Prifysgol Bangor wrth gynnal ymchwil am wahanol agweddau ar addysgu a dysgu, er enghraifft wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu a gwella ynganu. Caiff ffrwyth yr ymchwil ei weithredu'n effeithiol gan diwtoriaid sy'n cael effaith cadarnhaol ar fedrau siarad dysgwyr. Mae technegau addysgu a dysgu sy'n deillio o ymchwil o'r fath yn cael eu rhannu gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrth gyfoethogi profiadau dysgwyr mewn darparwyr eraill, er enghraifft fel sail i unedau cymhwysterau cenedlaethol i diwtoriaid newydd sydd dan ofal y darparwr.

Un o nodweddion arbennig yr addysgu yw'r modd mae tiwtoriaid yn addasu'r gweithgareddau dysgu i gynnwys iaith gynhenid a thafodiaith gyfoethog y cymunedau mae'r dysgwyr yn aelodau ohonynt. Er enghraifft, cyflwynir geiriau fel 'teisen', 'coelio', 'isio' a 'hercan' ac ebychiadau fel 'bechod', 'go wir?' a 'taw!' sy'n dwysau profiad llafaredd Cymraeg dysgwyr wrth iddynt ddatblygu eu hyder i siarad gyda'u cyfoedion o fewn eu hardaloedd penodol. Mae bron pob tiwtor yn cefnogi dysgwyr yn llwyddiannus wrth iddynt ddarparu adborth llafar ac ysgrifenedig.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio'r cynllun unigol o fewn Defnyddio Fy Nghymraeg yn effeithiol i ymateb i anghenion unigol dysgwyr. Mae cefnogaeth darpariaeth ADY i diwtoriaid yn darparu hyfforddiant ar ddyslecsia, dyspracsia a dysgu aml synhwyrol fel rhan o'r arlwy dysgu proffesiynol. Mae hyn, ynghyd â chynhaliaeth gyson i diwtoriaid a dysgwyr fel ei gilydd, yn cryfhau'r ddarpariaeth mewn amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol.

Er y pandemig, mae'r darparwr yn parhau i gynnig ystod eang o weithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n sicrhau llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau ar bob lefel yn ogystal â chyrsiau i weithleoedd gan gynnwys rhaglenni Cymraeg Gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn amryfal weithgareddau anffurfiol wrth iddynt ddatblygu eu medrau Cymraeg. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn teithiau cerdded, ymweld â theatrau ac orielau lleol, canu mewn côr a sesiynau paned a sgwrs wrth eu cefnogi i siarad Cymraeg mewn cyd-destunau diddorol. Mae tiwtoriaid yn meithrin medrau llafar a darllen dysgwyr yn fedrus wrth ddarllen llyfrau mewn clybiau darllen. Mae dysgwyr o bedwar ban byd yn mynychu'r clybiau hyn ar-lein ac yn mwynhau trafod cynnwys llyfrau ynghyd â holi'r awduron mewn sesiynau 'holi'r awdur'. Mae hyn yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr wrth iddynt gymhwyso eu medrau dysgu Cymraeg mewn cyd-destunau amgen. Yn ogystal, mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, mae tiwtoriaid yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr o'r Gymraeg a balchder o fyw yng Nghymru yn fuddiol, er enghraifft trwy ddarparu caneuon cyfoes gan artistiaid enwog fel Bryn Terfel wrth i ddysgwyr gwblhau tasgau byrion. Mae hyn yn dwysáu profiad dysgwyr o gerddoriaeth a diwylliant Cymru sydd yn ei dro, yn cael effaith buddiol ar eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a'r buddion o fod yn ddwyieithog.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Nodwedd eithriadol o Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yw'r modd y mae pawb sy'n aelod o'r gymuned glòs, ofalgar hon yn llwyr ymroddedig i gefnogi pob dysgwr. Mae tiwtoriaid yn sicrhau awyrgylch gynhaliol, bositif ac ysgogol lle mae bron pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cyfrannu i'r gwersi heb boeni am wneud camgymeriadau. Mae'r nod sylfaenol hon yn arwain at ddarpariaeth gefnogol gyflawn o'r radd flaenaf i bawb.

Mae'r darparwr yn cynnig ystod o wybodaeth bwrpasol a defnyddiol, ar-lein ac ar bapur, i helpu darpar ddysgwyr i ddewis y cwrs mwyaf perthnasol iddynt. Gyda'r gwersi wedi symud ar-lein ers cyfnod y pandemig, mae cryn hyblygrwydd ar gael i alluogi'r dysgwyr i symud rhwng cyrsiau os nad yw'r cwrs yn addas neu os bydd amgylchiadau'n newid. O ganlyniad, mae dysgwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ymwybodol o'r cychwyn sut i fanteisio hyd yr eithaf ar eu gwersi Cymraeg.

Mae olrhain presenoldeb dysgwyr yn fanwl ac yn rheolaidd yn nodwedd bwysig o waith y darparwr. Maent yn cysylltu ag unrhyw ddysgwr sydd yn colli ychydig o wersi er mwyn gweld beth gallant ei wneud i helpu. Yn ogystal, mae'r darparwr yn trefnu sesiynau ychwanegol fel ymyrraethau, sesiwn 'dal i fyny' a hyfforddiant digidol er mwyn sicrhau mynediad llawn i bob dysgwr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda iawn ac o ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth gadarn iawn o anghenion unigol pob dysgwr yn y grwpiau y maent yn eu haddysgu. Enghraifft arbennig o hyn yw'r cymorth gwerthfawr a'r trefniadau hyblyg a roddwyd i ddau weithiwr allweddol mewn cartref henoed fel bod modd iddynt barhau â'r dysgu a llwyddo er gwaethaf yr heriau.

Mae cynnal lefelau uchel o les y dysgwr a'r staff yn greiddiol i'r darparwr. Mae bron pob tiwtor wedi derbyn hyfforddiant lles myfyrwyr a staff. Ar sail yr hyfforddiant hwn, mae gan diwtoriaid strategaethau i'w cefnogi ac i gyfeirio dysgwyr at wasanaethau

arbenigol o fewn y brifysgol. Mae perthynas adeiladol a chynhaliol yn cael ei chreu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn cymorth addas a chynhwysol. Er enghraifft, anogwyd y dysgwyr yn ystod y cyfnod clo i fynd allan i dynnu lluniau yn yr awyr agored cyn eu trafod yn y gwersi Cymraeg. Mae'r gefnogaeth o fewn a thu hwnt i'r gwersi, yn rhan annatod o'r gymuned ddysgu ofalgar hon.

Mae gan y darparwr drefniadau cadarn ar gyfer nodi ac ymateb i ADY dysgwyr. Mae'r darparwr wedi clustnodi aelod penodol o staff i ofalu am hyn, gan gysylltu â nhw i gynnig pob cymorth ar gyfer hwyluso eu profiad fel dysgwr. Er enghraifft, trefnir sesiynau un-i-un i ddysgwyr â dyslecsia er mwyn iddynt fedru ymuno â'u dosbarthiadau'n llawn a hyderus. Mae'r tiwtoriaid yn derbyn gwybodaeth ar sut i ddarparu'n addas ar gyfer y dysgwyr hyn yn eu dosbarthiadau. Mae'r darparwr hefyd yn manteisio ar fod yn rhan o Brifysgol Bangor i gynnig cymorth pellach i ddysgwyr ag ADY.

Ceir cefnogaeth gref hefyd i ddysgwyr abl a hynny trwy gyrsiau pellach, lle mae cyfle i'r dysgwyr drin a thrafod llenyddiaeth Gymraeg o bob math. Mae'r ddarpariaeth hon yn arfogi'r dysgwyr i ddefnyddio geirfa soffistigedig a chyfoethog wrth ymateb i gynnwys ac arddull testunau llenyddol. Mae hyn yn arwain at ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o lenyddiaeth Cymru yn gelfydd.

Mae tiwtoriaid yn angerddol am gadw diddordeb trwy gynnig cyfleoedd cyson a diogel i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth trwy ystod eang o weithgareddau dysgu anffurfiol a digwyddiadau annibynnol. Maent yn trefnu digwyddiadau cymunedol fel teithiau cerdded, Panad a Sgwrs yng ngardd Palas Print ac ymarferion Côr Dros y Bont i gefnogi awch y dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg tu allan i wersi ffurfiol. Mae'r darparwr yn cydweithio'n agos iawn â nifer o bartneriaid fel y mentrau iaith lleol, Merched y Wawr, clybiau rygbi a chorau er mwyn creu cyfleoedd i'r dysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg yn naturiol yn eu cymunedau lleol.

Mae'r darparwr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr fynegi eu barn yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae'r staff bob amser yn barod i wrando, ac anfonir holiaduron yn ychwanegol at yr holiadur blynyddol gan y Ganolfan Genedlaethol. Dros gyfnod y pandemig, fe fu'r darparwr yn cywain barn y dysgwyr yn gyson er mwyn sichrau eu diogelwch a'u bodlonrwydd o weithio ar-lein.

Mae trefniadau diogelu'r darparwr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir a chadarn iawn ar gyfer darparu gwasanaeth o'r safon uchaf. Mae perthynas weithio agos a hynod effeithiol yn bodoli rhwng cyfarwyddwr y gwasanaeth a Phwyllgor Materion y Gymraeg Prifysgol Bangor, ac mae llinellau cefnogaeth ac atebolrwydd clir yn bodoli. Mae'r cyfarwyddwr yn adrodd yn fanwl ar gynnydd y ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae'r darparwr yn cael ei gynnwys fel elfen greiddiol o fewn strategaeth hir dymor y Gymraeg o fewn y brifysgol, ac o ganlyniad, mae'n elwa ar arbenigedd gwahanol adrannau o fewn y sefydliad hwnnw. Mae'r berthynas agos hon yn dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth.

Mae'r cyfarwyddwr yn darparu arweinyddiaeth gadarn a gofalgar i'w gyd-weithwyr. Mae'n angerddol dros sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl. Mae'r angerdd hwn wedi treiddio ar draws y sefydliad, ymysg arweinwyr a thiwtoriaid fel ei gilydd. Mae'r tîm arwain yn undod cryf, sydd â dyletswyddau clir a synhwyrol. Maent yn arwain ar wahanol elfennau strategol ac mae arweinyddiaeth ddosranedig hynod effeithiol yn sicrhau bod eu harbenigeddau'n cael eu defnyddio'n llawn. Mae eu gwaith yn cael dylanwad pellgyrhaeddol ar y ddarpariaeth. Ym mhob agwedd o'u gwaith mae arweinwyr yn canolbwyntio ar sicrhau profiadau dysgu cyfoethog er mwyn cynnal cynnydd y dysgwyr.

Mae gan y darparwr weithdrefnau hunanwerthuso manwl a chynhwysfawr iawn, sydd wedi eu seilio ar amrediad eang a pherthnasol o dystiolaeth. Maent yn cywain barn defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn medru ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Mae hunanwerthuso'r darparwr yn onest a chynhwysfawr. Yn barhaus, mae canfyddiadau hunanwerthuso yn bwydo cynlluniau datblygu a gwella manwl, sydd yn cynnwys blaenoriaethau priodol, a thargedau meintiol lle bo'n addas. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn rheolaidd. Er enghraifft mae'r ddogfen yn nodi'r camau penodol gymerwyd wrth ymateb i ostyngiad mewn niferoedd oedd yn cwblhau cyrsiau yn ystod tymor yr Haf 2020.

Mae'r broses o hunanwerthuso yn parhau yn ystod cyfnod COVID-19. Mae'r ffaith bod gweithdrefnau hunanwerthuso wedi gwreiddio mor gadarn cyn i'r pandemig daro wedi caniatáu i'r darparwr barhau gyda'r gwaith o werthuso ac ymateb i heriau'r cyfnod diweddar, digynsail hwn. O ganlyniad, maent wedi medru addasu yn hyblyg a chyflym. Mae'r addasiadau, er enghraifft o ran adnabod anghenion hyfforddiant tiwtoriaid ar gyfer dysgu o bell wedi golygu newidiadau sylweddol iawn ac mae arweinwyr wedi eu cyflwyno'n hynod effeithiol. O ganlyniad mae dysgwyr newydd yn ogystal â'r dysgwyr sydd wedi parhau gyda'u cyrsiau yn gwneud cynnydd cryf o hyd.

Mae'r darparwr yn cynnig amrediad eang a buddiol o brofiadau dysgu proffesiynol i staff. Mae'r tiwtor-drefnyddion sydd â chyfrifoldeb ar gyfer tiwtoriaid o fewn gwahanol ardaloedd y ddarpariaeth, yn adnabod anghenion datblygiad unigolion yn gywir.

Mae'r darparwr yn rhannu gwybodaeth yn fuddiol trwy'r fforymau ardal a gall y tiwtoriaid gyfrannu at feysydd hyfforddiant. Mae'r darparwr yn cefnogi staff i ddilyn cyrsiau proffesiynol sydd yn eu cynorthwyo i wella safonau dysgu ac addysgu ac ymestyn eu medrau arweinyddol. Er enghraifft mae aelodau o'r tîm rheoli yn derbyn hyfforddiant rheoli proffesiynol er mwyn adeiladu eu harbenigeddau a chefnogi y tîm ehangach.

Mae sicrhau ansawdd addysgu ac asesu yn cael eu cyflawni trwy arsylwadau rheolaidd. Mae adborth yn cael ei rannu gyda'r tiwtoriaid er mwyn iddynt fyfyrio ar eu harfer. Mae'r darparwr wedi sefydlu trefniadau blaengar sy'n caniatau i staff ddatblygu medrau arsylwi trwy gysgodi arsylwyr profiadaol wrth eu gwaith a rhoi adborth iddynt.

Mae'r darparwr yn chwarae rôl flaenllaw ym maes hyfforddiant cenedlaethol. Mae wedi awduro'r rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer tiwtoriaid newydd, sef 'Dechrau Dysgu.' Bellach mae disgwyl i bob tiwtor sy'n newydd i'r maes gyflawni'r cymhwyster cenedlaethol hwn o fewn amser penodol. Yn ogystal, mae'r darparwr wedi awduro

cymhwyster lefel 6 o'r enw 'Datblygu'r Dysgu' fydd yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus gwerthfawr i weithlu'r sector.

Mae'r darparwr yn cyd-weithio'n agos â gwahanol adrannau o fewn y brifysgol. Mae hyn yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt fanteisio ar arbenigeddau adrannau penodol.  Er enghraifft, trwy gydweithrediad â'r adran seicoleg, cynhyrchwyd canllawiau y gellir eu defnyddio gyda siaradwyr anfoddog y Gymraeg, er mwyn eu hannog i fagu hyder a dod yn siaradwyr mwy gweithredol.  Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol wedi ariannu'r cynllun yn rhannol ac yn defnyddio'r canllawiau fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith.

Mae gan y darparwr lefel dda o staffio ac mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau synhwyrol wedi eu seilio ar gyllideb dymor hir ynghyd ag anghenion dysgu gan gynnwys cynyddu'r nifer o diwtoriaid llawn amser dros gyfnod.  Mae eu cynlluniau'n rhoi ystyriaeth briodol i'r blaenoriaethau a bennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.  Mae'r darparwr yn elwa'n sylweddol ar fod yn rhan ganolog o weithdrefnau'r brifysgol, er enghraifft, trwy dderbyn cefnogaeth gan yr adrannau cyllidol ac adnoddau dynol a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae aelod o'r tîm arwain yn cydlynu gweithgareddau monitro cyllid, o dan arweinyddiaeth y cyfarwyddwr.  Mae'r gweithdrefnau adrodd a chraffu yn gadarn.  Mae'r cyd-weithio agos â'r brifysgol yn golygu bod lefel y brigdorri wedi ei gynnal ar 5%.  Mae hyn yn caniatau i'r darparwr barhau i fuddsoddi mewn agweddau megis hyfforddiant, a chyflogi tiwtoriaid llawn amser ychwanegol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/03/2022